

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Prestatyn Dental

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mawrth
2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Prestatyn Dental fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Prestatyn Dental yn eiddo i Cordon Blue Ltd. Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd ac arolygiadau [yma](#)

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ddydd Mercher 16 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Dadansoddiad effaith amgylcheddol
- Datganiad polisi amgylcheddol
- Yr asesiad risg cyffredinol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o bandemig COVID-19.

Gwelsom fod asesiad risg cyffredinol cynhwysfawr wedi cael ei gynnal, a oedd yn cynnwys asesiadau o'r amgylchedd, cyfarpar, ac iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion sy'n ymweld â'r practis.

Cawsom wybod, er mwyn diogelu staff a chleifion, fod unrhyw gleifion sy'n dod i'r practis yn gwneud hynny drwy gadw apwyntiad a wnaed ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod pob claf yn cael ei sgrinio am symptomau COVID-19 ar adeg trefnu apwyntiad. Gofynnir i gleifion ganu'r gloch ar flaen yr adeilad, cyn cael sylw gan staff a chael eu sgrinio am symptomau COVID-19, cyn cael mynediad i'r practis ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn hygyrch drwy'r brif fynedfa. Dywedwyd wrthym hefyd y cymerir gofal i gyfyngu ar nifer y cleifion sy'n mynychu ar yr un pryd a bod marciau llawr wedi'u darparu i gynorthwyo pobl i gadw pellter cymdeithasol. Mae'r staff sy'n derbyn cleifion i'r safle yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol.

Dywedwyd wrthym bod y nyrs arweiniol yn gwirio'r offer brys, cyffuriau ac ocsigen bob dydd a bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi rheoli heintiau
- Copi o'r archwiliad¹ dihalogi diweddaraf yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Amserlenni glanhau
- Cofnod profi'r awtoclaf
- Prawf gweddillion protein yr awtoclaf
- Canllawiau glanhau
- Polisi a phrotocol glanhau â llaw
- Gweithdrefn glanhau â llaw
- Rhybudd protocolau clinigol sy'n seiliedig ar risg COVID-19
- Amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Cofnod glanhau'r bath uwchsonig.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol ar gyfer rheolaeth ddeintyddol cleifion yng Nghymru yn ystod yr adferiad yn sgil pandemig COVID-19². Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol yng Nghymru. Cafodd newidiadau i Weithdrefn Weithredu Safonol y practis eu cyfleu i'r staff drwy e-bost a thrafodaethau wyneb yn wyneb.

Cawsom wybod bod staff wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch COVID-19. Trafodir unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd gyda'r staff i sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r newidiadau i'w gwaith.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y staff wedi derbyn amrywiaeth o hyfforddiant mewnol gan gynnwys atal a rheoli heintiau a'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol h.y. ei wisgo a'i ddiosg.

Dywedwyd wrthym fod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda

¹ Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd diheintio. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn ei gefnogi.

² <https://llyw.cymru/rheoli-cleifion-deintyddol-yn-ystod-y-broses-adfer-ar-ol-covid-19>

digonedd o stoc yn cael ei chyrchu a'i monitro'n rheolaidd. Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn rhagweld unrhyw broblemau gyda dod o hyd i gyfarpar diogelu personol yn y dyfodol.

Gwelsom fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gynnal, a'i fod wedi'i alinio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a gwelsom fod cynllun gweithredu wedi'i lunio i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygwyd yn ystod yr archwiliad.

Roedd tystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd yn dangos bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn cael eu glanhau'n drylwyr bob dydd. Gwelsom hefyd dystiolaeth sy'n dangos bod yr awtoclafau a'r bath uwchsonig yn cael eu gwirio bob dydd i sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.

Cawsom wybod bod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau³ wedi bod yn destun asesiad risg er mwyn lleihau trosglwyddiad aerosolau. Neilltuir mwy o amser ar gyfer glanhau yn fwy trylwyr ar ôl gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau, a neilltuir amser ychwanegol i staff wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol. Gwnaed penderfyniad hefyd i barhau â phrotocol presennol gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau oherwydd y ffaith bod achosion o'r amrywiolyn Omicron mor gyffredin.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisi cydsynio
- Cynllun parhad busnes
- Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Datganiad o ddiben⁴

³ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

⁴ Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, neu at ddibenion y practis, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

-
- Taflen wybodaeth i gleifion
 - Archwiliad cofnodion cleifion
 - Archwiliad delwedd pelydr-X.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion⁵, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Mae gan y practis wefan hefyd sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion.

Dywedwyd wrthym bod tîm rheoli'r practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad.

Cawsom gopi o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis. Gwelsom fod y rhain wedi bod yn destun adolygiad yn ystod y flwyddyn a gwelsom hefyd eu bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o brosesau adrodd am ddigwyddiadau a'i fod yn gwybod sut i gysylltu ag AGIC i adrodd am ddigwyddiadau neu i ofyn am gyngor. Dywedwyd wrthym bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi a'u hadolygu'n fisol a bod y staff yn cael gwybod am unrhyw bwyntiau dysgu.

Cawsom wybod nad oes salwch staff na swyddi gwag yn y practis ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant staff, a oedd yn dangos cydymffurfedd uchel â hyfforddiant gorfodol.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion sy'n dymuno cyrchu gwasanaethau neu wybodaeth mewn ieithoedd heblaw Saesneg. Cawsom wybod bod y practis yn cyflogi un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

Y rheolwr cofrestredig yw'r prif ddeintydd yn Prestatyn Dental hefyd. Mae'r rheolwr cofrestredig yn gweithio'n llawn amser yn y practis ac mae wrth law, bob dydd, i fonitro ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Cefnogir y rheolwr cofrestredig gan reolwr busnes/arweinydd cydymffurfedd, y nyrs arweiniol ac arweinydd ardal y practis. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn gweithio yn y practis ac yn cynnal asesiadau ffurfiol rheolaidd o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan Reoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

⁵ Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch ceisio barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.